Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Career Choices Dewis Gyrfa
# Gyrfa Cymru

# Adroddiad Blynyddol 2022-23

# Cynnwys

Gyrfa Cymru
Careers Wales


| | |
|---|---|
| Neges gan y cadeirydd a'r prif weithredwr | 3 |
| Ein gweledigaeth, ein diben a'n gwerthoedd | 4-5 |
| Ein gwasanaethau | 6-7 |
| Ein model busnes | 7 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 8-10 |
| Dyfodol Disglair: canlyniadau strategol a dangosyddion perfformiad allweddol | 11-14 |
| Cipolwg ar y flwyddyn | 15 |
| Gwasanaethau corfforaethol | 16 |
| Gwasanaethau digidol | 17-18 |
| Cefnogi pobl ifanc | 19-22 |
| Gweithio gyda chyflogwyr ac ysgolion | 23-25 |
| Cymru'n Gweithio | 26-30 |
| Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos | 31-38 |
| Ymrwymiadau eraill | 39-41 |
| Y Gymraeg | 42-43 |
| Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant | 44-46 |


## I gael cymorth neu gyfarwyddyd gyrfaoedd

Ffoniwch 0800 028 4844

gyrfacymru.llyw.cymru

post@gyrfacymru.llyw.cymru

Sgwrs ar-lein

Iaith Arwyddion Prydain

## Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Neges gan y cadeirydd a'r prif weithredwr

**Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23. Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall o dwf a datblygiad i Gyrfa Cymru, sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd ein gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd i bobl o bob oed.**

**Roedd 2022-23 yn nodi ail flwyddyn ein strategaeth pum mlynedd, Dyfodol Disglair. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ein cyflawniadau allweddol yn erbyn y weledigaeth hon, a sut y cefnogodd ein gwasanaethau bobl Cymru ac economi Cymru.**

**Rydym yn arbennig o falch o'n hymrwymiad parhaus i roi anghenion cwsmeriaid wrth wraidd yr hyn a wnawn. Trwy ein gwasanaeth digidol a phersonol cyfun, rydym yn teilwra ein cefnogaeth i anghenion unigolion, gan ddarparu gwasanaeth cynhwysol nad yw'n gadael neb ar ôl.**

**Mae ein cynnig unigryw i bob oed yn cydnabod nad yw pawb yn gwneud cynnydd yn yr un ffordd neu'n wynebu'r un heriau. Mae ein gwasanaeth yma i bobl ar adegau allweddol pan fydd angen arweiniad a hyfforddiant gyrfaoedd proffesiynol, diduedd arnynt i'w helpu i bontio mewn modd cadarnhaol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau y gall ein gwasanaeth ddarparu cymorth o'r ansawdd uchaf mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus. Trwy wreiddio diwylliant o welliant parhaus, gwaith gwerthuso a dealltwriaeth data, rydym yn hyderus y byddwn yn cyflawni'r nod hwn.**

**Gyda gweithio mewn partneriaeth yn un o'n gwerthoedd craidd, rydym yn falch o'r cydweithio parhaus â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i gefnogi cwsmeriaid yn ogystal â darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a busnesau.**

**Hoffem ddiolch a chydnabod ymroddiad ein haelodau bwrdd a'r holl gydweithwyr yn Gyrfa Cymru am eu cyfraniad parhaus, eu harbenigedd a'u gallu i addasu. Trwy eu hymrwymiad a'u hangerdd y gallwn gyflawni ein gweledigaeth strategol o Ddyfodol Disglair, bodloni gofynion Llywodraeth Cymru, a diwallu anghenion newidiol ein cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid.**



**Rydym yn hynod falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni eleni, a byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o safon i helpu i greu Cymru gryfach, werddach a thecach i bawb.**

**Erica Cassin, Cadeirydd, a Nikki Lawrence, Prif Weithredwr**

# Ein gweledigaeth, ein diben a'n gwerthoedd

## Ein gweledigaeth

Creu dyfodol disglair i bobl Cymru

## Ein diben

Cefnogi pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru i greu dyfodol mwy disglair. Byddwn yn gwneud hyn drwy fynediad at gymorth gyrfaoedd diduedd o ansawdd uchel sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau addysg, economaidd a llesiant unigolion.

## Ein gwerthoedd

- Rydym yn rhoi anghenion y cwsmer wrth galon yr hyn a wnawn
- Rydym yn cydweithio ag eraill i gyflawni nodau a rennir
- Rydym yn arloesol, wedi'n galluogi gan dechnoleg, ac yn cael ein harwain gan fewnwelediad.

# Gwneud gwahaniaeth:

Gyrfa Cymru
Careers Wales

- Ar gyfer pobl ifanc: gwell dealltwriaeth o fyd gwaith a'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo, a mwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, wedi'u hategu gan fynediad at arweiniad a hyfforddiant gyrfaoedd diduedd
- Ar gyfer oedolion: mynediad at arweiniad a hyfforddiant gyrfaoedd proffesiynol, diduedd i'w helpu i oresgyn rhwystrau a symud ymlaen i waith a hyfforddiant teg a boddhaol
- Ar gyfer busnesau: trwy ein gwaith gydag ysgolion, colegau a chymunedau, bydd gan gyflogwyr gysylltiadau agosach â'u gweithlu yn y dyfodol. Rydym yn cynorthwyo busnesau a gweithwyr pan fyddant yn wynebu colli swyddi, gan gefnogi ailsgilio ac uwchsgilio
- Ar gyfer ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a phrifysgolion: dysgwyr ysbrydoledig a llawn cymhelliant gyda chynlluniau clir ar gyfer eu gyrfaoedd, gan gefnogi cyrhaeddiad a dilyniant gwell
- Ar gyfer rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr: ymgysylltu â'r ffigurau dylanwadol hyn a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael a'u bod wedi'u paratoi'n addas i gynnig cymorth
- Ar gyfer Llywodraeth Cymru: mae arweiniad a hyfforddiant gyrfaoedd yn cefnogi gweithrediad llwyddiannus y farchnad lafur, gan wella canlyniadau economaidd, cefnogi a hwyluso symudedd cymdeithasol, a gwella llesiant pobl ifanc ac oedolion.

**Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau addysgol, cyflogwyr, partneriaid, a sefydliadau cymunedol i helpu pobl ifanc ac oedolion i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfleoedd, anghenion sgiliau, a'r farchnad lafur leol.**

**Mae ein gwasanaethau digidol yn darparu mynediad cenedlaethol i wybodaeth ac arweiniad a chymorth personol ar unwaith trwy we-sgwrs fyw a'r llinell gymorth ffôn.**

# Ein gwasanaethau

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Cwsmer**

Dwyieithog
Diduedd
Personol
Cynhwysol

## Gwasanaethau ym myd addysg

| | |
|---|---|
| **Blwyddyn 8-9** | **Blwyddoedd 10-13 ac addysg bellach** |
| Ehangu gorwelion a chodi dyheadau drwy archwilio opsiynau er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus | Cefnogi pontio'n llwyddiannus o addysg i hyfforddiant, dysgu pellach neu waith |
| **Addysg heblaw yn yr ysgol** | **Anghenion dysgu ychwanegol** |
| Helpu i gynnal ymgysylltiad ag addysg, gwaith a hyfforddiant | Gweithio gyda phartneriaid i gytuno ar gynlluniau dysgu a sgiliau a'u cefnogi er mwyn sicrhau profiadau pontio cadarnhaol |
| **Rhieni a gwarcheidwaid** | **Cysylltiadau rhwng addysg a busnes** |
| Ymgysylltu â rhieni, gan ddarparu gwybodaeth a chyngor i gefnogi plentyn i wneud penderfyniadau pwysig | Hwyluso cysylltiadau rhwng cyflogwyr ac ysgolion er mwyn cyfoethogi dealltwriaeth o'r 'byd gwaith' |

## Gwasanaethau yn y farchnad lafur

| | | |
|---|---|---|
| **Troseddwyr ifanc ac oedolion** | **Di-waith 16-18:** | **Di-waith 18+** |
| Cefnogi pobl ifanc ac oedolion yn ystod eu dedfryd a'u rhaglenni ailsefydlu | Cefnogi pobl ifanc i bontio'n llwyddiannus i addysg, gwaith, hyfforddiant neu gymorth cyflogadwyedd. Atgyfeiriadau i addysg, gwaith neu hyfforddiant, gan gynnwys rhaglen TSC+Mwy | Cefnogaeth i nodi a goresgyn rhwystrau i gyflogaeth. Cyngor ac arweiniad diduedd ac atgyfeirio at gymorth pellach neu raglenni addas. Cefnogaeth i ddod o hyd i waith |
| **Cyflogedig neu Hyfforddiant:** | **Colli swydd / diweithdra** | |
| Cefnogi adolygiadau gyrfa trwy wybodaeth, cyngor ac arweiniad a thrwy atgyfeiriadau i gefnogaeth trwy gronfeydd WULF a Chyfrifon Dysgu Personol | Cymorth i gael gafael ar gyllid ReAct+ er mwyn diweddaru sgiliau neu ailhyfforddi a chymorth cyflogadwyedd | |

**Allwedd:** WULF: Cronfa Ddysgu Undebau Cymru

# Ein gwasanaethau

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Cwsmer

| Gwasanaethau digidol | |
|---|---|
| Cymorth yn ymwneud â'r cwricwlwm | Cymorth cyffredinol |
| Cefnogi ysgolion a cholegau i ddatblygu eu darpariaeth gyrfaoedd a byd gwaith | Ar gael i bawb: www.gyrfacymru.llyw.cymru llinell gymorth, sgwrs ar-lein, cyfryngau cymdeithasol |

# Ein model busnes

## Mae Gyrfa Cymru yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru ac fe'i lansiwyd ar 1 Ebrill 2013.

Rydym yn darparu gwasanaethau gwybodaeth, hyfforddi ac arweiniad gyrfaoedd diduedd i bobl o bob oed yng Nghymru o fewn cylch gwaith a bennwyd gan Weinidog yr Economi Llywodraeth Cymru.

Mae ein bwrdd yn cynnwys cadeirydd a hyd at 13 o gyfarwyddwyr eraill a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bwrdd yn gofalu am lywodraethu'r cwmni ac yn cyfrannu at y strategaeth wrth symud ymlaen.

Mae llesiant economaidd a chymdeithasol Cymru wrth wraidd ein gwasanaethau, ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Trwy ein gwerthoedd a'n hegwyddorion, a thrwy weithio gydag eraill, byddwn yn gweithio mewn ffyrdd sy'n sicrhau ein bod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau llesiant y genedl.

Mae'r pum ffordd o weithio sydd eu hangen ar gyrff cyhoeddus i gyflawni'r saith nod llesiant yn cael eu hadlewyrchu wrth gynllunio ein gwasanaethau.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos ein ffyrdd o weithio a'r nodau yr ydym yn anelu at eu cyflawni.

## Cefnogaeth ar gyfer cynllunio gyrfa mewn ysgolion cynradd

Gallai plant mewn ysgolion cynradd ymddangos yn rhy ifanc i ddechrau meddwl am yrfaoedd. Ond maent yn dechrau datblygu syniadau am y byd o'u cwmpas a'r swyddi y gallent eu gwneud o oedran cynnar. Mae mwyafrif yr athrawon yn credu y dylai plant fod yn dechrau dysgu am fyd gwaith a swyddi gwahanol yn yr ysgol gynradd[1] gan ei fod yn helpu i wneud y canlynol:

- Cysylltu dysgu â'r byd go iawn a chynyddu cymhelliant i weithio'n galed
- Dod â mwy o berthnasedd i'w dysgu
- Herio stereoteipio ar sail rhyw am swyddi a phynciau ysgol
- Ehangu dyheadau

Er nad oes unrhyw benderfyniadau gyrfa i'w gwneud yn yr ysgol gynradd, mae plant yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o fyd gwaith. Y manteision **tymor hir** o ran cefnogi plant mewn ysgolion cynradd i ddatblygu eu syniadau am fyd gwaith yw helpu i **atal** effaith negyddol cynllunio gyrfa gwael ar ôl gadael yr ysgol uwchradd.

Mae gwaith gyrfaoedd yn yr ysgol gynradd yn gwneud y canlynol:

- Yn dangos i blant bod llawer o swyddi gwahanol
- Yn eu helpu i ddeall pam mae pobl yn gweithio
- Yn eu hannog i fod yn llawn cyffro am y dyfodol a'i bosibiliadau

[1] Dr E Kashefpakdel yn cyflwyno plant cynradd i fyd gwaith yng Ngorffennaf 2018

- Yn herio stereoteipiau trwy ddangos bod cyfleoedd yno i bawb
- Yn eu helpu i adnabod yr hyn y maent yn  hoffi a ddim yn hoffi ei wneud
- Yn dangos bod hobïau a diddordebau yn helpu i ddatblygu sgiliau defnyddiol
- Yn eu helpu i ddeall y bydd gwneud eu gorau glas yn rhoi mwy o ddewis iddynt yn y dyfodol

Wrth **gydweithio** ag ysgolion, rydym wedi rhoi gweithgareddau ac adnoddau ar waith i athrawon ysgolion cynradd i'w **hintegreiddio** i gwricwlwm eu hysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- **Dinas Gyrfaoedd** - i annog trafodaeth a chodi ymwybyddiaeth am sectorau allweddol
- **CrefftGyrfaoedd** - i ddysgu am wahanol yrfaoedd ac ymgymryd â heriau
- **Fideos 'Sôn am Swyddi'** - ar YouTube yn dangos gwahanol swyddi a'r sgiliau sydd eu hangen
- Digwyddiadau hyfforddi ar gyfer athrawon cynradd i'w helpu i gynnwys gyrfaoedd yn eu gwersi
- Gwahoddiad blynyddol i gymryd rhan yn Wythnos Darganfod Gyrfa

Rydym hefyd yn darparu awgrymiadau i rieni ar sut i gymryd rhan mewn sgyrsiau cynnar gyda'u plentyn am syniadau gwaith a gyrfa. Mae'r dull hwn yn ei gwneud yn haws cael sgyrsiau ystyrlon yn nes ymlaen, pan fydd yn rhaid i'w plentyn wneud penderfyniad. Mae adborth gan athrawon a disgyblion am y gefnogaeth a'r adnoddau yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys wrth wella'r gwasanaeth i ddisgyblion oed ysgol gynradd yn barhaus.

# Cysylltiad â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru â Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu – sy'n darparu cymorth ac adnoddau dwyieithog sy'n amlygu gwerth sgiliau Cymraeg yn y byd gwaith.

Cymru Fwy Cyfartal – sy'n galluogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir.

Cymru Lewyrchus – sy'n arfogi pobl ifanc â'r sgiliau i feddwl am eu dewisiadau gyrfa yn y dyfodol yn gynnar yn eu bywydau.

Cymru o Gymunedau Cydlynol – sy'n cefnogi ysgolion cynradd mewn cymunedau ledled Cymru i elwa ar ddealltwriaeth well o fyd gwaith.

Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang – sy'n nodi'r cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol gyfrannu at fyd cryfach, gwyrddach a thecach.

Cymru Iachach – sy'n helpu i wneud pobl ifanc yn fwy hyderus a brwdfrydig am eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Cymru Gydnerth – sy'n sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn economi Cymru yn y dyfodol.

# Dyfodol Disglair: canlyniadau strategol a dangosyddion perfformiad allweddol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canlyniadau strategol a nodir yn Dyfodol Disglair a'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a nodir yn eu herbyn ar gyfer 2022-23.

| | Canlyniad strategol | DPA | Perfformiad yn erbyn DPA |
|---|---|---|---|
| 1 | Cefnogi pobl ifanc ac oedolion i bontio'n gadarnhaol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau, a deall y sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol. | Mae 95% o ddisgyblion sy'n derbyn gwasanaeth arweiniad a hyfforddi yn mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. | Aeth 96.1% o'r bobl ifanc a dderbyniodd wasanaeth arweiniad a hyfforddi ac a adawodd Flwyddyn 11 yn 2022 i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol.[2] |
| 2 | Mae cwsmeriaid sydd wedi elwa ar lefelau uwch o gymorth yn pontio'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol. | Mae 85% o'r bobl ifanc sy'n cael cymorth wedi'i dargedu yn mynd ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. | Aeth 93.6% o'r bobl ifanc a gafodd wasanaeth cymorth wedi'i dargedu ac a adawodd Flwyddyn 11 yn 2022 i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. |
| 3 | Codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a chyfleoedd dilyniant eraill. | Dywedodd 90% o'r bobl ifanc mewn addysg eu bod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd. | Dywedodd 96% o bobl ifanc eu bod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd (1,646 o ymatebion cadarnhaol allan o 1,709). |

2 Gan mai dim ond ym mis Medi y lansiwyd Dyfodol Disglair mewn ysgolion, y garfan gyntaf i adael yr ysgol oedd haf 2022.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

| | Canlyniad strategol | DPA | Perfformiad yn erbyn DPA |
|---|---|---|---|
| 4 | Gwella mynediad at fanteision arweiniad gyrfaoedd a chymorth hyfforddi drwy **gydweithio** ac ymgysylltu â phartneriaid a dylanwadwyr. | Cytundebau partneriaeth gyda 100% o sefydliadau partner sy'n galluogi gwell mynediad at fanteision arweiniad a hyfforddi gyrfaoedd. | Llofnododd 96% o sefydliadau gytundeb partneriaeth (245 o sefydliadau allan o 255). |
| 5 | Hysbysu ac ysgogi pobl ifanc am y byd gwaith trwy ymgysylltu â chyflogwyr a modelau rôl. | Mae Gyrfa Cymru yn hwyluso o leiaf un digwyddiad ymgysylltu â chyflogwyr mewn 95% o ysgolion uwchradd Cymru. | Derbyniodd 95.7% o ysgolion o leiaf un digwyddiad ymgysylltu â chyflogwyr (200 o 209 o ysgolion uwchradd prif ffrwd). |
| 6 | Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau â blaenoriaeth economaidd a sut maent yn cysylltu â'r cwricwlwm. | Dywedodd 80% o gwsmeriaid eu bod yn fwy ymwybodol o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau â blaenoriaeth economaidd. | Dywedodd 90% o bobl ifanc eu bod yn fwy ymwybodol o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau â blaenoriaeth economaidd (1,140 allan o 1,262 o ymatebion). |
| 7 | Gwella gallu ysgolion ac arweinwyr gyrfaoedd i gyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fewn y Cwricwlwm i Gymru. | Darperir hyfforddiant neu gymorth ymgynghorol i wella rhaglenni gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith i athrawon mewn 65% o ysgolion uwchradd yng Nghymru. | Mae athrawon o 88% o ysgolion prif ffrwd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant neu gymorth ymgynghorol i wella rhaglenni gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith(183 o ysgolion allan o 209). |

Gyrfa Cymru
Careers Wales

| | Canlyniad strategol | DPA | Perfformiad yn erbyn DPA |
|---|---|---|---|
| 8 | Darparu gwasanaethau personol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sydd wedi'u gwella gan dechnoleg, ac sy'n ymateb i anghenion defnyddwyr ac yn hygyrch i bawb. | Mae 85% o gwsmeriaid yn dweud bod gwasanaeth ar-lein wedi diwallu eu hanghenion. | Dywedodd 90% o gwsmeriaid fod Cyswllt, ein gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf, wedi diwallu eu hanghenion (1,232 o ymatebion cadarnhaol allan o 1,363). |
| 9 | Creu gweithlu hynod fedrus, ymgysylltiol, amrywiol ac ystwyth. | Mae 100% o gynghorwyr gyrfaoedd dan hyfforddiant yn cwblhau eu Diploma Lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfaoedd yn llwyddiannus o fewn y ddwy flynedd a neilltuwyd.<br><br>Mae 75% o weithwyr yn adrodd lefelau cadarnhaol o ymgysylltu â'r cwmni. | O'r cynghorwyr hynny sydd wedi cymhwyso eleni, gwnaeth 65% ohonynt hynny o fewn y ffenestr dwy flynedd (11 allan o 17).<br><br>Mae ein harolwg pobl yn arolwg bob dwy flynedd. Bydd yn cael ei gynnal eto yn 2023-24. Yn 2021-22, nododd 75.9% o weithwyr lefelau cadarnhaol o ymgysylltu â'r cwmni. |

Gyrfa Cymru
Careers Wales

| | Canlyniad strategol | DPA | Perfformiad yn erbyn DPA |
|---|---|---|---|
| 10 | Optimeiddio ein defnydd o dechnoleg i drawsnewid ein ffyrdd o weithio a datblygu sgiliau a galluoedd digidol ein holl weithwyr. | Gwelliant yn sgiliau a galluoedd digidol gweithwyr. | Rhoddir rhaglen ddysgu a datblygu ar waith a bydd gwelliant yn cael ei fesur drwy ostyngiad ymhlith y 10% o weithwyr sydd angen cymorth i wella eu sgiliau digidol. |
| 11 | Llywio ein strategaeth, ein polisi a'n datblygiadau gwasanaeth trwy fewnwelediad cwsmeriaid, gwybodaeth busnes, data a dadansoddeg. | Dim DPA ond caiff cynnydd ei fonitro trwy ein fframwaith gwelliant parhaus. | Dim DPA ond caiff cynnydd ei fonitro trwy ein fframwaith gwelliant parhaus. |

# 2022-23 cipolwg ar y flwyddyn

Gyrfa Cymru
Careers Wales

- Roedd gan wefan Gyrfa Cymru yn agos at **2 filiwn** o ymweliadau â thudalennau a defnyddiodd dros **68,000** o gwsmeriaid un o'n hofferynnau asesu gyrfa i gynhyrchu awgrymiadau gyrfa personol yn seiliedig ar eu sgiliau, personoliaeth a diddordebau. Mae hyn yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau nesaf.

- Cyflawnwyd **82,778** o gyfweliadau gan gynghorwyr gyrfaoedd dros y ffôn, dros fideo ac wyneb yn wyneb gyda **39,729** o bobl ifanc mewn addysg[3].

- Gwnaeth dros **51,000** o bobl ifanc mewn addysg fynychu un neu fwy o **2,790** o sesiynau grŵp cynllunio gyrfa rhyngweithiol.

- Hwyluswyd bron **1,600** o weithgareddau ar wahân dan arweiniad cyflogwyr mewn ysgolion uwchradd, gan gynnwys ffug gyfweliadau, cyflwyniadau, ymweliadau safle a diwrnodau carwsél, i gyd wedi'u mapio i yrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru.

- Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi cyrraedd bron i **30,000** o bobl, gan gynnwys **4,678** o bobl ifanc 16-18 oed a thros **25,000** o oedolion 18+ oed.

- Gwnaethom gefnogi dros **40,000** o gysylltiadau cwsmeriaid trwy ein gwasanaeth Cyswllt aml-sianel. Cyswllt yw gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ein cwsmeriaid.

3 Diffinnir cyfweliadau fel rhyngweithiadau cyfarwyddyd, gwybodaeth a chyngor a ddarperir gan gynghorwyr gyrfa dros y ffôn, dros fideo ac wyneb yn wyneb.

# Gwasanaethau corfforaethol



## Staffio

Y cyfrif pennau presennol (ar 31 Mawrth 2022) oedd 633 (saith yn fwy na 31 Mawrth 2022). Y cyfwerth ag amser llawn (FTE) yw 569.94 (8.98 yn fwy na 31 Mawrth 2022). Y cydbwysedd rhwng y rhywiau yw 76.9% menywod, 23.1% gwrywod.

Cafwyd 59 o ymarferion recriwtio, 16 yn fwy na'r llynedd, gan gynnwys ymgyrchoedd Cymru gyfan ar gyfer cynghorwyr gyrfaoedd dan hyfforddiant a chymwys. Mae cyfraddau cadw yn dal yn uchel er bod y gyfradd trosiant wedi cynyddu i 7.5% o'i chymharu â 6.5% y llynedd (8.3% yn ôl FTE o'i chymharu â 7.2% y llynedd).

## Iechyd a llesiant

Mae iechyd a llesiant gweithwyr yn flaenoriaeth allweddol i ni, gyda ffocws arbennig ar symud, iechyd meddwl a rheoli straen.

Mae'r Safon Iechyd Corfforaethol yn rhan o'r rhaglen **Cymru Iach ar Waith** a dyma'r marc ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd a llesiant yn y gweithle. Rydym wedi cael ein hailachredu â'r wobr arian.

## Dysgu a datblygu

Gwnaethom fuddsoddi cryn dipyn o amser i gefnogi lansiad yr adolygiad canol gyrfa, gyda gweithdai ar y defnydd o Morrisby (asesiadau seicometrig a holiaduron), ymwybyddiaeth o'r menopos, arweiniad ariannol, ymwybyddiaeth gofalwyr ac ymwybyddiaeth o brofedigaeth. Gwnaethom hefyd gefnogi cydweithwyr sy'n delio â chwsmeriaid i ddatblygu eu sgiliau wrth weithio gyda grwpiau targed mewn ysgolion, ac i ddatblygu sgiliau gweithiwr arweiniol gydag oedolion.

Mae yna ar hyn o bryd 25 o gynghorwyr gyrfa dan hyfforddiant yn gweithio tuag at eu Diploma Lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfaoedd, a phum hyfforddwr cyflogadwyedd yn gweithio tuag at eu Lefel 4 Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd.

Mae gweithwyr wedi bod yn dilyn prentisiaethau mewn gweinyddu busnes, arweinyddiaeth a rheolaeth, dadansoddeg ddigidol, TG, a chyfryngau cymdeithasol.

Dechreuodd pum darpar reolwr ar y rhaglen datblygu arweinyddiaeth.

## Cyllid

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd cyfrifon diwedd blwyddyn 2022-23 yn dal i gael eu cwblhau. Mae ein **cyfrifon statudol ar gyfer y tair blynedd diwethaf** ar gael ar-lein a bydd rhai 2022-23 yn cael eu hychwanegu maes o law.

# Gwasanaethau digidol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

- Cafodd gwefan Gyrfa Cymru yn agos at **2 filiwn** o ymweliadau â thudalennau, gyda chwsmeriaid yn defnyddio'r wefan dros **580,000** o weithiau. Cafodd gwefan Cymru'n Gweithio dros **118,000** o ymwelwyr, cynnydd o dros **73%** ar y llynedd.

- Roedd y wefan yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â dros **750** o deitlau swyddi a sectorau diwydiant penodol. Cafodd yr adran fwyaf poblogaidd o'r wefan, 'gwybodaeth am swyddi', ei chyrchu gan dros **147,000** o ddefnyddwyr, cynnydd o **79%** ar y llynedd.

- Sicrhawyd bod cyfleoedd byw ar gael i'n cwsmeriaid trwy ein chwiliadau am brentisiaethau a chyrsiau. Roedd gan y ceisiadau hyn ddefnydd cyfunol o dros **71,000** o ddefnyddwyr.

- Cyrhaeddodd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio, gan gynnwys Twitter, Facebook, YouTube, Instagram a LinkedIn, gyfanswm cyfunol o **69,918** o ddilynwyr erbyn diwedd y flwyddyn gyda chyfanswm o **93,000** o ymgysylltiadau.

- Cyswllt yw gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ein cwsmeriaid ac mae'n darparu cymorth cyflogadwyedd digidol un-i-un trwy ein tîm o hyfforddwyr cyflogadwyedd cymwys. Mae hyn yn cynnwys help gyda dogfennau CV, cymorth gyda chyfweliadau, chwilio am swyddi, a gwybodaeth am y farchnad lafur. Yn ychwanegol at y **40,000** o gysylltiadau cwsmeriaid yr ymdriniwyd â nhw, rydym wedi darparu dros **4,000** o enghreifftiau o gymorth cyflogadwyedd un-i-un.

- Parhaodd ein hadnodd arobryn CrefftGyrfaoedd Minecraft i gael ei ddefnyddio'n fyd-eang fel ffordd arloesol o ddysgu am wahanol yrfaoedd a sectorau. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed nifer o welliannau yn seiliedig ar adborth defnyddwyr i'r llywio, gwybodaeth am y farchnad lafur a'r cynlluniau gwersi yn ogystal ag adeiladu ardal newydd. Bydd yr holl welliannau yn cael eu rhyddhau yn 2023. Ers ei lansio yn 2020, mae CrefftGyrfaoedd wedi'i lawrlwytho ar Microsoft Marketplace dros **6 miliwn** o weithiau ac y mae yn awr yn y **0.5% uchaf** o'r mapiau addysg mwyaf poblogaidd wedi'u lawrlwytho ar Marketplace.

- Gwnaethom asesu cymwyseddau digidol gweithwyr i sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i wneud eu gwaith a darparu profiadau rhagorol i gwsmeriaid. Cafodd **92%** o weithwyr eu hasesu, a disgwylir i gynlluniau dysgu wedi'u teilwra gael eu cyflwyno yn 2023.

# Gwasanaethau digidol



## Rydym yn sicrhau bod gwybodaeth a chymorth ar gael trwy glicio botwm trwy wasanaethau digidol sy'n hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio.

Mae'r wefan yn ffynhonnell wybodaeth 24/7 ac fe'i defnyddiwyd gan filoedd o gwsmeriaid trwy gydol y flwyddyn.

Fel rhan o ddatblygiadau gwefan parhaus, buom yn gweithio gyda rhieni i lansio ac integreiddio adran newydd sy'n cynnwys adnoddau a gwybodaeth i'w helpu i gefnogi eu plentyn. Gwnaethom hefyd ddatblygu cyfres o dempledi CV i gefnogi cwsmeriaid gyda'u hanghenion cyflogadwyedd.

Gwnaethom barhau i wreiddio ein swyddogaeth gwybodaeth am y farchnad lafur newydd, ac aeth ein hadnodd newydd Swyddi Dyfodol Cymru yn fyw. Mae Swyddi Dyfodol Cymru yn caniatáu i ddefnyddwyr gael mynediad at wybodaeth am y farchnad lafur sy'n sector-benodol, fel eu bod yn gwybod mwy am ba swyddi sydd eu hangen nawr ac yn y dyfodol ar draws diwydiannau allweddol. Cynhyrchwyd bwletinau gwybodaeth rheolaidd am y farchnad lafur gennym, gan gynnwys erthyglau nodwedd ar yr economi ddigidol, y diwydiant adeiladu a phrentisiaethau yng Nghymru.

Gwnaethom ddisodli ein Cwis Paru Swyddi blaenorol gyda'r Cwis Paru Gyrfa newydd, a adeiladwyd yn unol ag anghenion cwsmeriaid. Ochr yn ochr â hyn, lansiwyd datrysiad mewngofnodi newydd a fydd, dros amser, yn rhoi gofod personol i gwsmeriaid ar y wefan i storio a chael mynediad at wybodaeth gyrfaoedd sy'n berthnasol iddynt.

Gwnaethpwyd rhagor o waith i fodloni safonau hygyrchedd ar y wefan, a chyflwynwyd sianel Iaith Arwyddion Prydain (BSL) gennym hefyd yn Cyswllt ac ar draws ein canolfannau gyrfaoedd.

Lansiwyd fframwaith rheoli prosiect newydd i sicrhau bod ein prosiectau'n cael eu rheoli'n gyson ac yn effeithlon ar draws y cwmni. Buom yn gweithio gyda'n tîm Adeiladau i uwchraddio brand ein canolfannau gyrfaoedd, gan helpu i sicrhau bod ein mannau cwsmeriaid yn fywiog, yn gyfeillgar ac yn groesawgar.

Gwnaethom hefyd gynnwys ein cwsmeriaid mewn nifer o brosiectau ymchwil defnyddwyr i helpu i lunio ein gwasanaethau a'n cynhyrchion ar feysydd allweddol megis ein strategaeth rhieni, sut mae cwsmeriaid yn gyffredinol am gael mynediad at ein gwasanaethau, ac ymgysylltiad cyflogwyr o fewn ysgolion.

Eleni, mae'r tîm Arloesedd Digidol wedi canolbwyntio ar greu adnoddau a phecynnau digidol sy'n gysylltiedig â'r meysydd dysgu yn y cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion, gwaith grŵp, ac adnoddau ar gyfer disgyblion cynradd, yn ogystal â chefnogi ystod eang o ddigwyddiadau digidol lleol a chenedlaethol.

Gwnaethom hefyd waith helaeth ar ddatblygu'r wefan ar ochr y gweinydd, gan gynnwys gwella perfformiad a chyflymder ein cymhwysiad Chwilio am Gwrs a'n cynhyrchion Gwybodaeth am Swyddi a Sôn am Swyddi.

# Cefnogi pobl ifanc



- Cyfnod Allweddol 3 yw lle rydym yn dechrau ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael iddynt. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o offer i wneud hyn, gan gynnwys sesiynau grŵp, cyfweliadau, cwisiau ar-lein a sesiynau rhyngweithiol.

- Gwnaethom gyflawni dros **772** o sesiynau grŵp i dros **19,000** o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn ymdrin â phynciau fel gwneud penderfyniadau, ymwybyddiaeth o gyfleoedd a pharu gyrfa. Yn ychwanegol, cynhaliwyd **3,008** o gyfweliadau i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3.

- Cyflwynir myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 i'r byd gwaith esblygol a chânt eu hannog i ddysgu mwy am eu hopsiynau gyrfa a sut i gymryd eu camau nesaf. Cynhaliwyd **63,553** o gyfweliadau un-i-un i **31,041** o bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 i drafod eu syniadau gyrfa a gwnaeth dros **28,000** o bobl ifanc fynychu sesiynau grŵp rhyngweithiol.

- Mae'r cymorth a ddarperir i fyfyrwyr y chweched dosbarth yn canolbwyntio ar bontio ar ôl 18 oed a datblygu dealltwriaeth o'u hopsiynau ar gyfer y dyfodol. Gwnaeth **3,705** o bobl ifanc gael y cymorth hwn drwy gyfarfodydd un-i-un a **122** o sesiynau grŵp.

- Mae myfyrwyr sy'n mynychu colegau addysg bellach yn cael cymorth dilynol, gan gynnwys arweiniad a chyfweliadau hyfforddi. Yn ystod y flwyddyn, cafodd **3,208** o fyfyrwyr ein cymorth trwy gyfweliad gyrfaoedd.

- Mae ein cynghorwyr yn gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i gefnogi cyfnod pontio cynlluniedig a llwyddiannus o'r ysgol. Gwnaethom ddarparu **4,068** o ryngweithiadau un-i-un i **2,690** o bobl ifanc â datganiad a'r hyn sy'n gyfwerth.

- Yn ogystal â chefnogi myfyrwyr, mae hefyd yn bwysig i'n timau ymgysylltu â rhieni a gofalwyr a'u cynnwys. Cafwyd **9,312** o gysylltiadau a gofnodwyd gyda rhieni a gofalwyr, a mynychodd **196** o gynghorwyr nosweithiau rhieni.

- Yn ystod eu hamser yng Nghyfnod Allweddol 4, derbyniodd , **21,314** [4] o garfan ymadawyr ysgol 2022 gyfweliad gyda chynghorydd gyrfa a ddarparwyd drwy fideo, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae hyn yn cynrychioli **66%** o'r garfan.

[4] Yn seiliedig ar bobl ifanc mewn ysgolion prif ffrwd ar system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid Gyrfa Cymru gyda dyddiad geni rhwng 1 Medi 2005 a 31 Awst 2006. Casglwyd y data ar 30 Mehefin 2022 ac mae'n cynnwys yr holl gyfweliadau a ddarparwyd i'r garfan ym Mlwyddyn 10 ac 11 hyd at y dyddiad hwnnw. 32,323 oedd cyfanswm y garfan.

# Cefnogi pobl ifanc



## Mae ein gwaith mewn ysgolion a cholegau yn cefnogi pobl ifanc i ddod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd mewn marchnad swyddi gymhleth sy'n newid yn barhaus

Gyda chynghorydd gyrfa penodol wedi'i integreiddio i bob ysgol brif ffrwd ac arbennig yng Nghymru, gall myfyrwyr gael mynediad at wybodaeth a chymorth gyrfaoedd trwy gydol eu teithiau addysgol. I alluogi hyn, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i gytuno ar gynllun cyflawni yn seiliedig ar anghenion yr ysgol a disgyblion unigol. Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn canolbwyntio ar anghenion tymor byr a thymor hir disgyblion gyda phwyslais ar y canlynol:

- Ehangu gorwelion
- Codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau sydd eu hangen yn y farchnad lafur fodern
- Datblygu'r sgiliau ar gyfer cynllunio gyrfa tymor byr a thymor hwy
- Darparu cymorth ar adegau pontio allweddol i ddisgyblion sydd ei angen, i'w hatal rhag disgyn allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Mae ein gwaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn canolbwyntio ar ehangu gorwelion a chodi dyheadau pobl ifanc ym mlynyddoedd 8 a 9 wrth iddynt baratoi i ddewis eu pynciau. Mae cynghorwyr gyrfa yn cyflwyno gweithdai ar bynciau sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau, herio stereoteipio ar sail rhyw a chyflwyno ein Cwis Paru Gyrfa.

Ein ffocws yng Nghyfnod Allweddol 4 yw cefnogi pobl ifanc i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg a'u gyrfa. Rydym yn cynnig cymorth i bob disgybl a fydd yn cael ei wahaniaethu i ddiwallu eu hanghenion unigol. Dyrennir disgyblion i un o bedwar categori:

1. Cymorth cyffredinol – cyngor a gwybodaeth trwy sesiynau grŵp, cysylltiadau digidol personol, gwefan (gan gynnwys gwe-sgwrs) a llinell gymorth dros y ffôn
2. Cymorth Gwirio Gyrfa – y rhai sydd angen arweiniad a hyfforddiant fel y nodwyd gan ein harolwg Gwiriad Gyrfa
3. Cymorth wedi'i dargedu – wedi'i anelu at bobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i bontio'n gadarnhaol i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant
4. Cymorth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i bobl ifanc ag ADY

# Cefnogi pobl ifanc



Mae cynghorwyr gyrfa ar gael i gefnogi pobl ifanc mewn addysg ôl-16 yn y chweched dosbarth ac yn y coleg. Mae'r cymorth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr y nodwyd eu bod mewn perygl o beidio â chwblhau eu cwrs ôl-16 a'u hatal rhag dod yn NEET [5] .

Mae gennym dîm o gynghorwyr sydd hefyd yn cefnogi pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliad y tu allan i ysgolion prif ffrwd (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) neu gartref, gan sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn cael cyfle cyfartal i dderbyn arweiniad a hyfforddiant gyrfaoedd.

I lawer o bobl ifanc, rydym yn cydnabod bod rhieni a gofalwyr yn ddylanwadwyr allweddol ar eu penderfyniadau gyrfa. Mae ymgysylltu a chydweithio â rhieni yn flaenoriaeth allweddol i ni, gan roi'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf iddynt i gefnogi eu plentyn wrth gynllunio ei yrfa. Mae ein cynghorwyr yn mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau lle gallant rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am opsiynau a'r farchnad lafur.

## Hynt Disgyblion 2022

Rydym yn cynnal yr arolwg blynyddol o ymadawyr ysgol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r arolwg hwn yn edrych ar y llwybrau dilyniant mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a ddewisir gan bobl ifanc. Mae'n darparu cipolwg defnyddiol o hynt disgyblion sy'n hysbysu staff gyrfaoedd yn eu gwaith gyda chwsmeriaid, rhieni, athrawon a chyflogwyr yn ogystal â bod o gymorth amhrisiadwy i bartneriaid a chydweithwyr sy'n ymwneud â chynllunio cyfleoedd dysgu, hyfforddiant a chyflogaeth.

Roedd 2022 yn nodi'r flwyddyn gyntaf ers pandemig COVID-19 lle cynhaliwyd arholiadau allanol i ddysgwyr yng Nghymru. Yn 2020 a 2021, dyfarnwyd canlyniadau'r blynyddoedd hyn ar sail graddau a bennwyd gan y ganolfan.

Mae canfyddiadau allweddol o'r arolwg o **55,715** o ymadawyr ysgol o flynyddoedd 11, 12 ac 13 yn 2022 yn cynnwys y canlynol:

- **Mae parhau mewn addysg amser llawn yn parhau i fod y dewis cyrchfan mwyaf poblogaidd i ddisgyblion ym mhob un o'r tri grŵp blwyddyn**
- **Dewisodd canran uwch o fenywod na gwrywod ar draws y tair carfan barhau mewn addysg amser llawn**

[5] Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

- Roedd 1,066 o ymadawyr ysgol o flynyddoedd 11, 12 ac 13 y gwyddys eu bod yn NEET yng Nghymru, yn cynrychioli 1.9% o'r garfan gyfan
- Roedd canran y bobl ifanc sy'n mynd i hyfforddiant a gwaith a gefnogir gan y llywodraeth (statws cyflogedig a di-waith) ar ei huchaf ar gyfer y rheini ym Mlwyddyn 11, sef 4.4% (1,437 o unigolion)
- Roedd canrannau'r bobl ifanc sy'n mynd yn syth i gyflogaeth ar 3.4% ar gyfer Blwyddyn 11, 2.4% ar gyfer Blwyddyn 12, a 12.7% ar gyfer Blwyddyn 13
- Roedd mynd i mewn i'r farchnad lafur (naill ai hyfforddiant yn y gweithle neu gyflogaeth) yn ddewis mwy poblogaidd ymhlith dynion na merched ar draws y tair carfan yn 2022.

**Ceir hyd i'r adroddiad llawn yma: Hynt Disgyblion 2022 | Gyrfa Cymru (llyw.cymru)**

# Gweithio gyda chyflogwyr ac ysgolion

Gyrfa Cymru
Careers Wales

- Cyflwynwyd ein hail **wythnos darganfod gyrfa** rithwir flynyddol ar gyfer ysgolion cynradd (Chwefror 2023) ac ysgolion uwchradd (Gorffennaf 2022). Roeddent yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gyrfaoedd digidol dan arweiniad cyflogwyr sy'n gysylltiedig â holl feysydd y cwricwlwm newydd. I gyd, gwnaeth **154** so ysgolion uwchradd a **320** o ysgolion cynradd ymuno i gymryd rhan, sy'n cynrychioli twf sylweddol ar y flwyddyn flaenorol.
- Gwnaethom barhau i ddarparu gwasanaeth ymgysylltu â chyflogwyr pwrpasol i ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion gyda sesiynau'n cael eu cynnal mewn **38** o leoliadau gwahanol.
- Cynhaliwyd **687** o sesiynau hyfforddi ac ymgynghori gydag athrawon mewn **237** o ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ledled Cymru. Roedd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar bynciau allweddol, fel gwreiddio gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith yn y cwricwlwm, arwain rhaglenni yn y maes hwn, gwybodaeth am y farchnad lafur, ac offer ac adnoddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.
- Cyflwynwyd sesiynau hyfforddi ac ymgynghori mewn tua **60** o ysgolion cynradd. Mae hwn yn faes gwaith newydd i ni, a gobeithiwn ddatblygu hwn ymhellach yn 2023-24.

**Mae ein tîm o gynghorwyr cyswllt busnes yn dod ag ysgolion a chyflogwyr ynghyd, gyda'r nod o hysbysu, ysbrydoli ac ysgogi pobl ifanc am eu cyfleoedd gyrfa.**

Nod ein cydlynwyr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yw meithrin sgiliau, gwybodaeth a hyder gweithwyr addysg proffesiynol, fel y gallant gyflwyno rhaglenni gyrfaoedd effeithiol ac integreiddio gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eu cwricwlwm.

Gwnaethom barhau i ddatblygu ein llyfrgell enfawr o fideos i gyflogwyr sydd ar gael i ysgolion i gefnogi'r cwricwlwm. Datblygwyd ein hadnoddau yn chwe 'phecyn' digidol yn cwmpasu pob maes o'r cwricwlwm. Roedd y pecynnau hyn yn cynnwys fideos a gwybodaeth am y farchnad lafur, gan gwmpasu ystod eang o sectorau a swyddi sy'n gysylltiedig â phob maes.

# Gweithio gyda chyflogwyr ac ysgolion

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Cynhaliom amrywiaeth o ddigwyddiadau byw, gan gynnwys ffeiriau gyrfaoedd Dewis Eich Dyfodol ledled Cymru. Gwnaethom hefyd gyflwyno digwyddiadau 'Beth Nesaf' ar gyfer disgyblion ag ADY ym mhob rhanbarth, yn ogystal â digwyddiad sector Llwybrau Creadigol yng Ngogledd a De Cymru. Gwnaethom gydlynu digwyddiad digidol Cymraeg yn y Gweithle cenedlaethol gyda'r nod o hyrwyddo gwerth y Gymraeg i fyfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cynhaliwyd ein ffair brentisiaethau flynyddol yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, hefyd a daeth dros **75** o gyflogwyr a mwy na **1000** o fyfyrwyr.

Rydym yn parhau i weithio gydag ysgolion a chyflogwyr i ymgorffori cymorth cyflogwyr yn y cwricwlwm. Mae ein cronfa ddata chwiliadwy genedlaethol o gyflogwyr, y Gyfnewidfa Addysg Busnes, ar gael i ysgolion. Rydym wedi ailddatblygu adran cyflogwyr ein gwefan i roi arweiniad manwl ar sut i weithio gydag ysgolion. Rydym wedi parhau i ddatblygu menter Partneriaid Gwerthfawr Ysgolion, sydd â'r nod o adeiladu cysylltiadau cynaliadwy rhwng ysgolion a chyflogwyr allweddol, a bellach mae **74** o bartneriaethau integredig gweithredol yng Nghymru a bwriedir ehangu'r cynllun. Cafodd llawer o'r cyflogwyr hyn eu cydnabod yn ein seremoni Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 8 Tachwedd 2022. Cyhoeddasom hefyd **bamffled astudiaethau achos** i arddangos yr ystod o waith gan gyflogwyr sy'n digwydd mewn ysgolion.

Rydym wedi parhau i ddarparu prosiectau ar y cyd â phartneriaid. Daethom â'r prosiect Ysgogwch i ben yn llwyddiannus, a gyflwynwyd gennym yn rhanbarthol gyda phartneriaid awdurdodau lleol ac a oedd wedi'i anelu at bobl ifanc a oedd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Gwnaethom hwyluso ystod eang o weithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr fel rhan o'r prosiect hwn a gosod nifer sylweddol o fyfyrwyr mewn cyfleoedd profiad gwaith wedi'i deilwra. Yn seiliedig ar lwyddiant y prosiect hwn, yn ystod haf 2022 gwnaethom osod yn llwyddiannus **100** o bobl ifanc a nodwyd ar leoliadau profiad gwaith wedi'i deilwra fel rhan o'r prosiect Adnewyddu a Diwygio, a arweinir gan Lywodraeth Cymru i helpu'r rhai y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt. Ers hynny, rydym wedi cael ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i leoli **500** o bobl ifanc ar brofiad gwaith wedi'i deilwra ar draws blynyddoedd busnes 2022-23 a 2023-24.

Yn ogystal, fel rhan o gynllun gweithredu Adnewyddu a Diwygio, gwnaethom gyflwyno prosiect cyn-fyfyrwyr mewn ysgolion uwchradd. Denodd hyn dros **800** o unigolion a gofrestrodd i gefnogi eu hysgol flaenorol. Buom yn gweithio'n ddwys gyda **25** o ysgolion a nodwyd i gefnogi ystod o weithgareddau a arweinir gan gyn-fyfyrwyr. Buom hefyd yn gweithio gydag awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot ar brosiect Cronfa Adfywio Cymunedol i hwyluso profiad gwaith ar gyfer carfan Blwyddyn 10 mewn ysgol leol. Fe wnaethom barhau â'r prosiect STEM Gogledd yng ngogledd-orllewin Cymru, lle mae mentoriaid wedi cefnogi ystod eang o weithgareddau gyda'r nod o ddenu mwy o ddysgwyr i lwybrau dilyniant a gyrfaoedd STEM.

# Gweithio gyda chyflogwyr ac ysgolion

Gwnaethom barhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a defnyddio'r pecyn cymorth a phecyn adnoddau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a ddatblygwyd ar y cyd â'r Sefydliad Datblygu Gyrfa (CDI). Gwnaethom hefyd ychwanegu adnoddau at ein cyfeiriadur Hwb ac edrychwyd ar ein cyfres o restrau chwarae Hwb 'gwireddu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm' **2095** o weithiau. Cychwynnodd carfan o **14** o athrawon o bob rhan o Gymru ar ein cymhwyster blaenllaw Tystysgrif Lefel 6 mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd, sy'n cael ei gymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

Buom yn gweithio gyda'r Sefydliad Datblygu Gyrfa i gwblhau astudiaeth ddichonoldeb i'r posibilrwydd o ddatblygu gwobr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith newydd i gymryd lle Marc Gyrfa Cymru, sef offeryn gwella'r cwricwlwm yr ydym wedi'i gyflwyno mewn ysgolion a cholegau ers 2010. Arweiniodd yr astudiaeth at gymeradwyaeth weinidogol, ac mae gennym bellach Wobr Ansawdd Gyrfa Cymru ddrafft yr ydym yn bwriadu ei threialu gyda 30 o leoliadau ledled Cymru o fis Medi 2023. Mae'r wobr yn adeiladu ar y pecyn cymorth ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion asesu eu harweinyddiaeth yn y maes hwn, cynnwys eu rhaglen, a'r effaith a gaiff ar ddysgwyr. Bydd y wobr ar gael i ysgolion cynradd yn ogystal ag uwchradd a bydd yn cryfhau ymhellach ein harlwy i'r sector hwn.

Cymru'n Gweithio

Cymru'n Gweithio
#newiddystori

# Cymru'n Gweithio yw dull Llywodraeth Cymru wedi'i deilwra o ddarparu arweiniad a chymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd hygyrch a diduedd i bobl Cymru.

**Mae wedi cael ei dargedu at bobl ifanc 16-17 oed o'r adeg y maent yn gadael addysg ac oedolion 18+ oed. Mae'r gwasanaeth yn pwysleisio presenoldeb lleol a chenedlaethol, gan gynorthwyo pobl i gyrraedd eu cyrchfan nesaf, gan gynnwys dysgu pellach, cyfleoedd hyfforddi, sicrhau cyflogaeth a chymorth diswyddo.**

**Mae gwasanaethau wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn gynhwysfawr. Darperir cymorth mewn fformat cyfunol i weddu i anghenion a dewisiadau cwsmeriaid, ac mae'n cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb, darpariaeth grŵp, llinell gyngor dros y ffôn a gwasanaeth gwe-sgwrs, yn ogystal â chymorth dros y ffôn a thrwy sianeli digidol eraill.**

- **Pobl ifanc:** Cafodd **4,678** o bobl ifanc **15-17** oed eu cefnogi. Roedd cefnogaeth yn cynnwys **9,181** o ryngweithiadau uniongyrchol â chwsmeriaid unigol, gan gynnwys **3,213** o ryngweithiadau wyneb yn wyneb a **3,197** o gyfweliadau ffôn, yn ogystal â **2,595** o alwadau i'n llinell gyngor ffôn a chyfweliadau fideo. Ymgymerasom hefyd â **6,391** o ymyriadau eiriolaeth ar ran pobl ifanc gyda chyflogwyr, darparwyr dysgu ac asiantaethau cymorth.

- **Oedolion:** Rydym yn cefnogi cwsmeriaid 18+ oed sy'n ddi-waith, yn economaidd anweithgar, yn wynebu colli eu swyddi, yn wynebu rhwystrau i ddilyniant neu'n ceisio newid gyrfa. Rydym hefyd yn cefnogi oedolion sydd mewn gwaith ond sy'n ceisio cyfarwyddyd neu gyngor gyrfa ar adolygu neu ail-lunio eu gyrfaoedd. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd **25,000** o oedolion gymorth, a ddarparwyd drwy **65,324** o ryngweithiadau uniongyrchol â chwsmeriaid unigol. Roedd y rhyngweithiadau hyn yn cynnwys **25,019** o ryngweithiadau wyneb yn wyneb, **21,315** o ryngweithiadau ffôn a **1,140** o ryngweithiadau fideo. Yn ogystal, cefnogodd ein gwasanaeth Cyswllt dros **17,500** o alwyr yn ystod y flwyddyn. Ymgymerasom hefyd â **15,630** o ymyriadau eiriolaeth ar ran cwsmeriaid gyda chyflogwyr, darparwyr dysgu ac asiantaethau cymorth.

- **Cefnogaeth i fudwyr dan orfodaeth:** Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gefnogi bron **800** o fudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid ledled Cymru. Mewn ymateb i'r niferoedd cynyddol o fudwyr dan orfodaeth sy'n ceisio cymorth, mae'r gwasanaeth wedi gwneud y canlynol:

  - Cynyddu nifer yr ieithoedd y mae ein taflenni gwybodaeth yn cael eu cyfieithu iddynt i **23 o ieithoedd** (gan gynnwys Wcreineg).
  - Penodi 'hyrwyddwyr' mudwyr a ffoaduriaid rhanbarthol ledled Cymru, a gafodd hyfforddiant ychwanegol a mynediad at gyfarfodydd ac adnoddau. Nod y dull hwn yw adeiladu a chadw gwybodaeth ac arbenigedd y gellir eu defnyddio'n uniongyrchol i gefnogi cwsmeriaid yn ogystal â darparu pwynt cyfeirio arbenigol ar gyfer cydweithwyr eraill.
  - Dynodi cyllideb i alluogi cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau UK ENIC. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi unigolion i gael gwybodaeth am gywerthedd y cymwysterau a enillwyd dramor yn y DU. Mae'n helpu drwy ddarparu'r Datganiad Cymharedd a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n dangos sut mae cymwysterau rhyngwladol yn cymharu â fersiynau'r DU. Gwnaethom gefnogi **477** o geisiadau i UK ENIC gan gwsmeriaid sy'n fudwyr a ffoaduriaid. Roedd hyn yn cefnogi teithiau i mewn i waith trwy sicrhau y gallai darpar gyflogwyr fod yn sicr ynghylch lefel y cymhwyster a enillwyd a'i gywerthedd yn y DU.
  - Cynyddu'n sylweddol y defnydd o gyfieithu ar y pryd LanguageLine i gael mynediad at ein cymorth mewn canolfannau gyrfaoedd a lleoliadau allgymorth i gwsmeriaid y mae Saesneg yn ail iaith iddynt.
  - Datblygu partneriaeth gadarnhaol ac effeithiol gyda Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a'r Grŵp Cyflogaeth. Mae dau o'n rheolwyr bellach yn aelodau, sydd wedi helpu i gynyddu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth yn y meysydd hyn.
  - Darparu ein gwasanaethau mewn nifer o lety pontio, gan gynnwys Tŷ Magwyr a Chanolfan Groeso Aberdâr.
  - Datblygu pecyn cymorth i fudwyr a cheiswyr lloches dan orfodaeth ar gyfer cynghorwyr gyrfa.

- **Cymorth diswyddo:** Fel rhan o wasanaeth ReAct+ Llywodraeth Cymru, mae ein timau o gynghorwyr gyrfaoedd yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr ac unigolion sy'n wynebu colli eu swyddi. Yn aml, fel y bobl gyntaf ar y safle i helpu, mae ein cynghorwyr yn cynnig cymorth ac arweiniad i bobl sy'n aml yn wynebu profiadau trawmatig a heriol. Maent yn darparu pecynnau i gyflogwyr sy'n cynnwys cymorth ymateb cyflym ar unwaith, cyfarwyddyd gyrfaoedd un-i-un, cymorth sgiliau cyflogadwyedd a help i baratoi ceisiadau.

  Bu ein cynghorwyr yn gweithio gyda **2,942** o unigolion, gan gyflwyno **10,429** o ymyriadau a chreu **1,461** o gynlluniau gweithredu. Fe wnaethom hefyd ddarparu cymorth yn ystod nifer o ddiswyddiadau ar raddfa fawr trwy gyflwyno sesiynau gwybodaeth a chlinigau un-i-un ar safleoedd cyflogwyr. Buom yn cydweithio i gyflwyno sesiynau grŵp ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau fel bod cwsmeriaid yn cael gwybod am eu hopsiynau mewn perthynas â budd-daliadau, yn ogystal â'r cymorth y mae Cymru'n Gweithio a'r rhaglen ReAct / ReAct+ yn ei gynnig. Fe wnaeth dull integredig y tîm ymroddedig hwn leihau'r anawsterau a'r aflonyddwch a wynebir gan gwsmeriaid yn ystod y cyfnod hwn.

- **Ystad ddiogel:** Darperir cymorth i oedolion hefyd i droseddwyr yn y ddalfa. Gan ddefnyddio proses atgyfeirio, mae gan garcharorion fynediad at ganllawiau un-i-un yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad lafur leol a chymorth i wneud cais am gyfleoedd cyn cael eu rhyddhau. Yna rydym yn parhau i fod ar gael i bobl ar ôl eu rhyddhau o'r carchar i ddarparu cymorth yn ystod y cyfnod pontio ac i atal aildroseddu.

  Mae ein gwaith mewn carchardai wedi'i leoli'n bennaf mewn carchardai dynion ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi cefnogi carcharorion benywaidd yn CEM Styal a CEM Eastwood Park yn Llundain yn ystod y flwyddyn ac wedi dyrannu cynghorwyr penodol i'r sefydliadau hyn er mwyn sicrhau bod carcharorion benywaidd sy'n symud yn ôl i Gymru ar ôl eu rhyddhau yn cael eu cefnogi'n briodol. Gwnaethom gefnogi **949** o garcharorion a chynnal **1,463** o ymyriadau, gan gynnwys cymorth dilynol. Buom hefyd yn gweithio'n agos gyda staff carchardai yn y biwroau cyflogaeth newydd i gefnogi carcharorion gyda sgiliau cyflogadwyedd ac i helpu i wneud eu cyfnod pontio yn ôl i'r gwaith ar ôl eu rhyddhau yn haws.

- **Cymorth cydleoli ac allgymorth i gwsmeriaid:** Rhan o gylch gwaith Cymru'n Gweithio o'i gychwyn yn 2019 oedd y nod o 'estyn allan' at gwsmeriaid drwy fynd â'r gwasanaeth i'r gymuned. Profwyd y cysyniad hwn yn ddifrifol yn ystod y cyfyngiadau symud, ond ers hynny rydym wedi ailadeiladu ein rhwydwaith allgymorth yn raddol ac rydym bellach yn darparu gwasanaeth o ganolfannau gyrfaoedd a thros **80** o leoliadau allgymorth, gan gynnwys canolfannau gwaith, llyfrgelloedd a hybiau cymunedol. Mae'r lleoliadau allgymorth yn ein galluogi i ymestyn cyrhaeddiad ein gwasanaeth i gymunedau a grwpiau na fyddent efallai fel arall yn ceisio gwasanaethau. Maent hefyd yn ein galluogi i integreiddio ein gwasanaethau ochr yn ochr ag eraill i'w gwneud yn fwy hygyrch i gwsmeriaid. Rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023, gwelwyd dros **4,600** o gwsmeriaid a gefnogwyd mewn lleoliadau allgymorth.

## Digwyddiadau:

- **Ffair swyddi i ffoaduriaid:** roedd hwn yn ddigwyddiad a fynychwyd gan nifer dda mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a daeth oddeutu **700** o bobl. Arweiniodd y digwyddiad at atgyfeiriadau ar y diwrnod am gefnogaeth bellach gan y tîm. Roeddem hefyd yn gallu cefnogi anghenion iaith cwsmeriaid trwy Arabeg, Wrdw, Pwnjabeg ac Wcreineg.
- **Digwyddiad rhieni:** cynhaliwyd digwyddiad prawf yn Ysgol Gynradd Victoria yn Wrecsam i ganolbwyntio ar rieni a oedd angen cymorth gyrfaoedd. Gwahoddwyd Cymunedau am Waith i gefnogi'r digwyddiad hwn ac rydym yn bwriadu defnyddio hwn fel templed ar gyfer digwyddiadau tebyg ar y cyd yn y dyfodol.
- **Ffair Swyddi i Ddinasyddion Wcráin ac Affganistan yn JCP:** darparu 'marchnad' o gymorth i gydweithwyr sy'n gweithio yn y maes hwn. Mynychodd **150** o gynrychiolwyr y digwyddiad hwn.
- **Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru:** digwyddiad croeso yng Nghaerdydd lle daeth dros **200** o bobl i ymweld â'n stondin ac roedd gan y tîm **132** o ryngweithiadau ystyrlon gyda'r mynychwyr.
- **Digwyddiadau recriwtio Andrew Scott:** Gwnaethom gynnal dau ddigwyddiad yn ein canolfannau gyrfaoedd yng Nghasnewydd a Sir Benfro. Mynychodd dros **60** o gwsmeriaid ar draws y ddau ddigwyddiad ynghyd â dwsinau o asiantaethau partner. Cynigiwyd swyddi i **13** o gwsmeriaid ar y diwrnod gyda **10** arall yn cael eu gwahodd am ail gyfweliadau.
- **Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith Caerdydd:** buom yn ymwneud yn helaeth â'r gwaith o gynllunio a darparu'r ffair swyddi hon i ffoaduriaid, gyda **275** o bobl yn ymweld â'n stondin.
- **Digwyddiad adolygu canol gyrfa, Bro Morgannwg:** bu Cymunedau am Waith a Mwy, y gwasanaeth llyfrgell a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymwneud â datblygu a hyrwyddo'r digwyddiad hwn a daeth dros **25** o gyflogwyr, darparwyr dysgu a sefydliadau cymorth cyflogadwyedd i arddangos. Daeth bron **100** o gwsmeriaid i wella eu hymwybyddiaeth o raglenni, swyddi gwag a llwybrau sy'n helpu pobl i newid neu ailddechrau eu gyrfaoedd.

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Mae'r enghreifftiau canlynol wedi'u darparu drwy arolygon adborth cwsmeriaid dienw neu drwy negeseuon e-bost a negeseuon testun digymell:

## Cefnogi pobl ifanc

"Roedd yn anhygoel ac fe agorodd fy llygaid i wahanol fathau o gyflogaeth."

"Roedd y cynghorydd yn barod iawn i helpu a gwnaeth i mi deimlo mai dyma'r sgwrs yr oedd angen i mi ei chael cyn i mi adael yr ysgol uwchradd."

"Fe'i gwnaeth hi'n gyffyrddus iawn i mi a rhoddodd gyngor a gwybodaeth dda i mi am opsiynau gyrfa posibl yn y dyfodol."

"Roedd hi'n wych ac fe helpodd hi fi i ddeall beth oeddwn i'n mynd i mewn iddo, gwnaeth yn siŵr bod gen i gynllun B, gan nad oedd un gen i, a dangosodd hi'r opsiynau i mi. Allwn i ddim bod wedi gofyn am well."

"Gwnaeth y cynghorydd gyrfa waith anhygoel yn fy helpu i ddeall pa bosibiliadau sydd ar ôl fy TGAU."

"Amgylchedd cyfforddus iawn i siarad am sut rydw i'n teimlo o ran y dyfodol agos."

"Roedd yn hyfryd ac wedi fy helpu i ddeall fy opsiynau – esboniodd bopeth yn glir a gwneud i bopeth deimlo'n fwy posibl. Ar ôl cael y cyfweliad, es i adref yn teimlo mwy o gymhelliant tuag at fy nyfodol, sy'n dda iawn yn fy marn i."

"Agorais fy llygaid i ddiwydiannau nad oeddwn i erioed yn gwybod eu bod yn bodoli a allai fod yn opsiynau i mi."

Gyrfa Cymru Careers Wales

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

## Cymru'n Gweithio

"Roedd y derbynnydd a'r cynghorydd yn wybodus iawn, yn hawdd mynd atynt ac yn barod i helpu. Cefais gyngor penodol ac ymarferol iawn a agorodd fy meddwl i agwedd newydd tuag at ddod o hyd i brofiad a thynnu ar sgiliau a gwybodaeth nad oeddwn yn gwerthfawrogi oedd gennyf eisoes. Cyn y cyfweliad hwn ym Mlaenau Gwent, roedd gen i syniad rhagdybiedig bod cyngor gyrfaoedd ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed yn unig. Allai hyn ddim bod ymhellach o'r gwir."

"Gwrandawodd fy nghynghorydd arnaf gyda pharch a thosturi. Eglurodd sut y gallai Gyrfa Cymru fy nghefnogi i wella fy nghyfleoedd i gael swydd. Gwasanaeth gwych, y tu hwnt i'm disgwyliadau. Diolch!"

"Rwy'n hoffi'r ffordd mae hi'n fy helpu a sut mae hi'n esbonio'r opsiynau i mi. Rwy'n dod ymlaen yn dda gyda hi a, phe na bai gen i hi, ni fyddwn wedi pasio fy nghwrs Lefel 1 mewn gofal plant ar-lein – fe wnaeth fy helpu i ddod o hyd i'r cwrs."

"Cefais apwyntiad yn y Ganolfan Waith a gofynnais a oedd cymorth ar gael i adolygu fy CV. Trefnodd fy nghynghorydd Canolfan Waith i mi weld cynghorydd gyrfa yn syth ar ôl fy apwyntiad. Roedd hi mor gymwynasgar. Rwyf wedi bod yn teimlo ychydig yn isel ac wedi dadrithio gyda'r broses o chwilio am swydd ond cynigiodd y cynghorydd gyrfa gyngor ac adborth ardderchog ar fy CV a rhoddodd gyngor hefyd ar gyfleoedd posibl a allai fod ar gael i mi. Rwy'n cael cyfarfod dilynol gyda hi ymhen pythefnos ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr. Ni allaf ddiolch digon iddi am roi'r hwb yr oedd ei angen arnaf."

"Roeddwn i'n bryderus iawn cyn mynychu'r cyfarfod hwn ond fe ges i dawelwch meddwl a theimlad o gysur."

"Rwy'n dioddef gyda materion amrywiol. Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus iawn yn siarad amdanyn nhw. Rwy'n teimlo y gallaf symud ymlaen a dechrau adeiladu llwybr gyrfa newydd. Diolch."

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Gweithio gyda ffoaduriaid o Wcráin ym Mlwyddyn 11

Oherwydd effaith y rhyfel yn Wcráin, rydym wedi gweithio gyda ffoaduriaid o oedran ysgol o Wcráin. Yn Ysgol John Bright yn Llandudno, buom yn cefnogi pedwar ffoadur o Wcráin ym Mlwyddyn 11 a oedd wedi ffoi o'r rhyfel.

Gan weithio gyda chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) yr ysgol ac athro gwasanaethau Saesneg fel iaith ychwanegol yr awdurdod lleol, llwyddodd ein cynghorydd yn yr ysgol i sefydlu anghenion y bobl ifanc. I ddechrau, caffael iaith oedd y flaenoriaeth, felly cytunwyd y byddai cymorth cynllunio gyrfa yn dechrau ar ôl caniatáu peth amser iddynt ymgartrefu ym mywyd ysgol Cymru.

Roedd anghenion cymorth yn sylweddol – ychydig neu ddim sgiliau Cymraeg neu Saesneg oedd gan y disgyblion wrth gyrraedd; eu bod wedi cael eu lleoli mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac wedi mynychu dosbarthiadau cyn gynted ag y gwnaethant gyrraedd; roedd problemau dadleoli gan nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am ble y gallent gael eu lleoli nesaf ar ôl i'w chwe mis cychwynnol ddod i ben; ac nid oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am y system addysg yng Nghymru.

Ar ôl mynychu sesiwn hyfforddi ar ddefnyddio offer cyfieithu ochr yn ochr â thrafodaethau gyda'r athro gwasanaethau Saesneg fel iaith ychwanegol, cynhaliodd y cynghorydd sesiwn grŵp gyda dysgwyr Blwyddyn 11 i egluro sut roedd addysg ôl-16 yn gweithio ac i ddarganfod pa syniadau oedd ganddynt mewn golwg ar eu cyfer eu hunain yn 16 oed ac yn y tymor hwy. Creodd y cynghorydd daflen i gefnogi hyn yn Saesneg, Wcreineg a Rwsieg i helpu'r dysgwyr i gael mynediad at yr wybodaeth. Defnyddiwyd ap cyfieithu yn y sesiwn ac roedd y dysgwyr hefyd yn cefnogi ei gilydd.

Gwelodd y cynghorydd bob dysgwr yn unigol i'w cefnogi i ystyried eu camau nesaf a'u syniadau tymor hwy. Buont hefyd yn cysylltu â phennaeth y chweched dosbarth a'r coleg lleol. Rhannwyd yr arferion da hyn gyda chynghorwyr eraill mewn sefyllfa debyg.

Mae'r pedwar unigolyn ifanc bellach yn deall y system addysg yng Nghymru ac yn ymwybodol o sut y gallwn eu cefnogi yn eu cynllunio a'u dilyniant. Mae'r rhai a oedd yn barod i wneud ceisiadau wedi gwneud hynny. Mae'r unigolyn ifanc nad oedd eto'n teimlo'n barod i wneud cais yn gwybod bod cymorth parhaus ar gael. Hoffai dau o'r pedwar ddychwelyd i'r chweched dosbarth ac maent wedi nodi eu dewisiadau pwnc a'u dyheadau. Gall yr ysgol edrych ar drefnu pecyn priodol.

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Cysylltiad â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru Fwy Cyfartal – sy'n darparu gwasanaeth cynhwysol ac ymatebol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.
- Cymru Lewyrchus – sy'n arfogi pobl ifanc â'r sgiliau i gynllunio eu dewisiadau gyrfa yn y dyfodol yn effeithiol ar gyfer y tymor hir.
- Cymru o Gymunedau Cydlynol – sy'n rhoi'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad i ffoaduriaid i'w helpu i ymgartrefu ac integreiddio yn eu cymunedau newydd.
- Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang – sy'n cefnogi ffoaduriaid ar adeg o argyfyngau dyngarol.
- Cymru Iachach – sy'n cefnogi llesiant meddwl pobl ifanc ar adeg o argyfwng yn eu bywydau.

## O ddi-waith i gynorthwyydd addysgu

Bu Laura yn ddi-waith am dros ddwy flynedd ar ôl gadael ei gyrfa nyrsio o 20 mlynedd. Roedd hi eisiau newid gyrfa ac roedd ganddi ddiddordeb mewn gweithio gyda phlant. Roedd rhwystrau yn atal Laura rhag cael gwaith, ond ar ôl cael cymorth cyson gan Cymru'n Gweithio ar ei sgiliau cyflogadwyedd, cafodd rôl cynorthwyydd addysgu. Dywedodd Laura:

> "Mae Gyrfa Cymru wedi fy helpu cymaint gyda fy sgiliau cyflogadwyedd ac mae'r staff mor gymwynasgar a chyfeillgar. Byddwn yn argymell Gyrfa Cymru i unrhyw un sydd angen cymorth neu sy'n cael trafferth i chwilio am waith."

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Ymgysylltu â chyflogwyr – William Hare Engineering Ltd

Buom yn gweithio gyda William Hare Engineering Ltd (WH) i hyrwyddo'r prentisiaethau ar eu safle yn Rhisga, ger Casnewydd. Roedd y cwmni am recriwtio pedwar prentis mewn gwneuthuro a weldio. Yn ogystal â hyrwyddo'r prentisiaethau i bobl ifanc a oedd wedi mynegi diddordeb yn y maes hwn o waith, aeth WH i ysgolion lleol i gyflwyno gweithdy. Y nod oedd amlygu prentisiaethau gyda chwmnïau lleol a datblygu mwy o ymwybyddiaeth o wybodaeth am y farchnad lafur. Roedd y broses ymgeisio yn annog myfyrwyr i greu CV, meddwl am yrfaoedd mewn peirianneg, ac ystyried eu llwybr gyrfa eu hunain.

Un o'r ysgolion a ofynnodd am weithdy ar gyfer ei disgyblion Blwyddyn 11 oedd Ysgol Uwchradd Islwyn, ger Coed-duon. Yn dilyn ymlaen o'r gweithdy, cynigiodd WH ymweliad safle i fyfyrwyr oedd â diddordeb mewn gwneud cais am y prentisiaethau. O'r gweithdy cychwynnol a'r ymweliad safle, cadarnhaodd WH fod nifer o fyfyrwyr wedi cyflwyno ceisiadau am y prentisiaethau.

Llwyddodd un o fyfyrwyr Ysgol Uwchradd Islwyn, Connor, i gael prentisiaeth. Roedd Connor "wrth ei fodd" pan glywodd ei fod wedi bod yn llwyddiannus gan ei fod yn ansicr o'i gamau nesaf pe na bai'n sicrhau prentisiaeth. Roedd ei athrawon yn Ysgol Uwchradd Islwyn wedi ei gefnogi gyda'i gais a dywedodd Connor fod cynnig y brentisiaeth wedi ei ysgogi i weithio'n galetach ar gyfer y graddau TGAU yr oedd eu hangen er mwyn iddo gael ei dderbyn.

Mae Connor yn mwynhau ei brentisiaeth ac yn credu ei fod wedi gwneud y penderfyniad cywir. Mae ar y safle bedwar diwrnod yr wythnos yn gweithio ar brosiectau ar gyfer Hinkley Point ochr yn ochr â mynychu Coleg Gwent, lle mae'n gwneud lluniadu technegol i wella ei waith safle. Mae mentor Connor wedi dweud ei fod yn gwneud yn dda, yn awyddus i weithio, ac yn dangos ymdeimlad o aeddfedrwydd. Mae WH wedi gwarantu swydd iddo ar ddiwedd ei brentisiaeth.

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Cysylltiad â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru Fwy Cyfartal – sy'n galluogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir.
- Cymru Lewyrchus – sy'n arfogi pobl ifanc â'r sgiliau i fanteisio ar gyfleoedd yn y farchnad lafur.
- Cymru o Gymunedau Cydlynol – sy'n cefnogi pobl ifanc i gael cyflogaeth â thâl a hyfforddiant a chyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau.
- Cymru Iachach – sy'n helpu i wneud pobl ifanc yn fwy hyderus a brwdfrydig am eu gyrfaoedd.
- Cymru Gydnerth – sy'n sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn economi Cymru yn y dyfodol.

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

## Cymorth cwricwlwm – Merched proffesiynol TG yn helpu i ysbrydoli merched Caerdydd



Ymwelodd gweithwyr proffesiynol TG benywaidd â disgyblion o Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi ac Ysgol Uwchradd Willows yng Nghaerdydd. Pwrpas yr ymweliad oedd ysbrydoli disgyblion i ystyried gyrfaoedd mewn TG a chyfrifiadureg.

Cafodd merched ym Mlwyddyn 9 gyfle i siarad â gweithwyr proffesiynol TG benywaidd o gyflogwyr blaenllaw yng Nghymru, gan gynnwys y canlynol:

- Admiral
- V12 Finance
- Cyngor Caerdydd
- Alcumus
- Hodge Bank

- Women in Cyber
- Tŷ'r Cwmnïau
- LexisNexis Risk Solutions

Buont yn siarad am yr hyn yr oeddent yn ei fwynhau am eu swyddi a'u teithiau gyrfa ac yn amlygu pa mor bwysig yw sgiliau TG ar gyfer amrywiaeth o swyddi gwahanol. Buont hefyd yn siarad am y swyddi sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol, a meysydd y gallent weld swyddi'n datblygu ynddynt yn y dyfodol.

Dywedodd athrawon o'r ddwy ysgol fod disgyblion yn hapus i ofyn cwestiynau a bod ganddynt ddiddordeb yn yr hyn a glywsant.

Dywedodd Joseph Hamer, athro TGCh/cyfrifiadureg yn Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi:

> **"Roedd y sesiwn yn gyfle gwych i grŵp o ferched Blwyddyn 9 weld sut y gellir defnyddio TGCh a chyfrifiadureg mewn proffesiynau byd go-iawn. Cawsant gyfle i ofyn cwestiynau, gweld arddangosiadau, ac, yn y pen draw, dysgu ar gyfer beth y gellir defnyddio'r pynciau hyn."**

Dywedodd Adrian Cole, cynghorydd cyswllt busnes Gyrfa Cymru:

> **"Mae mor bwysig rhoi gwybod i ferched am yrfaoedd o fewn y diwydiannau STEM a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae dod â gweithwyr proffesiynol i mewn i ysgolion i ymgysylltu â disgyblion yn rhoi cipolwg ar y byd gwaith go-iawn. Mae hefyd yn galluogi disgyblion i ofyn cwestiynau a darganfod beth maen nhw eisiau ei wybod. Mae clywed bod disgyblion wedi dod i ffwrdd gan ystyried TG fel opsiwn TGAU ar eu cyfer yn golygu ein bod wedi gallu cyflwyno'r hyn yr oedd yr ysgol ei eisiau."**

## Cysylltiad â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru Fwy Cyfartal – sy'n annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (benywod yn yr achos hwn) i ystyried gyrfaoedd mewn TG a chyfrifiadureg.
- Cymru Lewyrchus – sy'n annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddilyn galwedigaethau sy'n rhoi boddhad ariannol.
- Cymru Gydnerth – sy'n sicrhau cyflenwad o dalentau lle mae anghysondebau yn yr economi.

# Ymrwymiadau eraill

## Perfformiad amgylcheddol

Yn 2022-23, fe wnaethom fabwysiadu model gweithio hybrid a oedd yn caniatáu i staff weithio gartref neu o'u prif swyddfa. Rydym yn y broses o ddatblygu ein strategaeth adeiladau i sicrhau bod ein harferion gwaith hybrid yn cyd-fynd yn llawn â'n strategaeth sero net ar gyfer 2030.

Mae ein strategaeth sero net yn seiliedig ar osod sylfaen ar gyfer dull cwbl newydd o ymdrin â'r ffordd yr ydym yn rhyngweithio â'n cwsmeriaid i ddiogelu ein gwasanaethau at y dyfodol drwy sicrhau bod gennym bortffolio adeiladau bywiog i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Ein hamcanion allweddol fydd darparu swyddfeydd modern datblygedig yn dechnolegol, gydag allyriadau carbon isel a fydd yn rhoi'r gallu i ni ddarparu amgylcheddau gwaith modern sy'n caniatáu arferion gweithio'n hyblyg sydd ar gael i groestoriad eang o'r gymuned. Yn unol â'r strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb', byddwn yn sicrhau bod ein portffolio ystadau yn mynd i'r afael ag anghenion y gymuned yr ydym yn gweithredu ynddi. Rydym wedi neilltuo cyllideb ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn tri o'n heiddo sy'n eiddo i ni er mwyn gwella sgôr eu Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) yn 2023/24. Rydym wedi cwblhau arolwg ôl-osod amgylcheddol o'r swyddfeydd hyn a'n nod yw cwblhau'r gwaith yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae systemau rheoli'r amgylchedd a phrosesau monitro sy'n rhan annatod o'r cwmni yn allweddol i gyflawni ein strategaeth. Yn 2022-23, buom yn llwyddiannus wrth ailymgeisio am achrediad Lefel 4 system achredu amgylcheddol y Ddraig Werdd. Mae'r data amgylcheddol yn y tabl isod wedi'i gasglu o'r 30 swyddfa sydd o dan ein rheolaeth lwyr a lle rydym yn derbyn anfonebau'n uniongyrchol gan y cyflenwr ynni. Yn ogystal â'r adrodd ar ddata amgylcheddol sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn adrodd yn flynyddol ar wybodaeth amgylcheddol ychwanegol i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys amcangyfrif o allyriadau kgCO2e ar gyfer gweithio gartref (131,927), teithio i'r gwaith (63,831) a chadwyni cyflenwi (1,345,737).

| | 2020-2021 | 2021-2022 | 2022-2023 |
|---|---|---|---|
| Dŵr (litrau) | 1,742,180 | 1,021,000 | 1,936,000 |
| Milltiroedd busnes | 57,069 | 209,586 | 275,919 |
| Trydan kWh | 281,920 | 306,267 | 356,144 |
| Nwy kWh | 1,005,477 | 1,192,737 | 1,270,523 |
| Nwyon tŷ gwydr CO2 – tunelli | 343 | 348 | 383 |

| Costau ariannol | £ | £ | £ |
|---|---|---|---|
| Nwy | 21,438 | 20,892 | 26,851 |
| Trydan | 64,319 | 104,723 | 113,626 |
| Dŵr | 9,493 | 5,621 | 16,891 |

Er mwyn cyfrifo'r tunelli CO2 o allyriadau ar gyfer nwy a thrydan, rydym yn defnyddio'r ffactor kWh kgCO2e, sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2022, bu cynnydd yn ffactor kWh kgCO2e y DU o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli'r defnydd o ynni ar draws ein busnes. Fel y nodwyd yng nghyfrifon statudol y llynedd, roeddem yn disgwyl cynnydd yn ein hallyriadau y flwyddyn ariannol hon ac roedd y canlyniad terfynol yn adlewyrchu'r disgwyliadau hyn. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, agorodd ein swyddfeydd am ddiwrnodau ychwanegol ac mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn milltiroedd busnes, defnydd trydan a defnydd nwy.

Yn 2023/24, rydym yn cynllunio gostyngiad o 15% yn ein defnydd o nwy, trydan a dŵr. Rydym wedi neilltuo gwariant refeniw a chyfalaf i helpu i leihau ein hallyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau, trafnidiaeth, a nwyddau a gwasanaethau a brynir. Rydym yn y broses o adolygu ein hystad sy'n eiddo i ni ac ar brydles i sicrhau bod ein portffolio ystadau yn addas i'r diben i ddiwallu anghenion staff a'n sylfaen cwsmeriaid. Ein prif amcan yw lleihau ein hôl troed $CO^2$ drwy greu adeiladau sy'n effeithlon yn amgylcheddol fel y nodir gan sgôr eu Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Rydym wedi nodi swyddfeydd nad ydynt bellach yn cyd-fynd â'n strategaeth ac rydym yn rhagweld y bydd newidiadau i'n portffolio ystadau presennol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Rydym yn canolbwyntio ar swyddfeydd llai ac rydym yn edrych ar gyfleoedd i gydleoli gyda sefydliadau partner.

## Cysylltiad â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru Lewyrchus – effeithlonrwydd adnoddau ac economi gylchol.
- Cymru Gydnerth – sy'n lleihau effaith amgylcheddol casglu gwastraff.
- Cymru Iachach – gwelliant mewn ansawdd aer yn sgil llai o allyriadau.
- Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang – sy'n ymdrechu i wella cyfraddau ailgylchu a lleihau allyriadau o ddefnydd busnes.

**Credwn fod cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu dewis iaith yn arfer gorau ac rydym wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.**

Rydym yn cydymffurfio â safonau penodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau, llunio polisïau, safonau gweithredu a chadw cofnodion. Cyhoeddwyd ein **hadroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg** ym mis Medi 2022.

Rydym yn parhau i gyfrannu ac ymateb i nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan bwysleisio gwerth sgiliau Cymraeg yn ein gwaith gydag unigolion, trwy sesiynau grŵp, digwyddiadau cyflogwyr 'Cymraeg yn y Gweithle' (gweler isod) ac ymgyrchoedd marchnata. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio i ni, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd, creu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu ymhlith ein gweithlu, a gwneud defnydd cynyddol effeithiol o ddata i lywio cynnydd ein hymrwymiad i Cymraeg 2050.

## Digwyddiad Cymraeg yn y Gweithle yn Ysgol Uwchradd Rhosnesni.

Mewn digwyddiad rhwydweithio cyflym a gynhaliwyd yn Ysgol Rhosnesni yn Wrecsam, daeth cyflogwyr Cymraeg eu hiaith o'r ardal i'r ysgol i siarad â disgyblion am eu profiadau.

Rhoddwyd gweithlyfr i bob disgybl ei gwblhau a gwnaethant gyflwyno eu hunain a gofyn cwestiynau yn Gymraeg yn eu tro. Roedd y diwrnod yn rhan o uned TGAU Cymraeg ac yn darparu tystiolaeth ategol tuag at 'ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymhwyster Bagloriaeth Cymru.'

Dywedodd Meinir Tomos Jones, Arweinydd Cwricwlwm Cymraeg Ysgol Uwchradd Rhosnesni:

> **"Mae darparu cyfleoedd i fyfyrwyr siarad Cymraeg o fewn ystod o gyd-destunau bywyd go-iawn yn rhan annatod o'n darpariaeth Gymraeg yn Ysgol Rhosnesni. Mae cynnal ffair gyrfaoedd Cymraeg yn sicrhau bod myfyrwyr Ysgol Rhosnesni yn ymarfer eu Cymraeg, sef sgìl cyflogadwyedd allweddol, o fewn cyd-destun ffurfiol gyda chyflogwyr lleol; mae hyn yn magu hyder ac yn rhoi mantais iddynt wrth iddynt ymuno â marchnad gyflogaeth gystadleuol."**

Dywedodd Stephen Jones, swyddog iaith Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

> **"Cafodd disgyblion fewnwelediad da i'r rôl bwysig y mae'r Gymraeg yn ei chwarae ym mywydau beunyddiol pobl ac yn y gweithle. Mae'r digwyddiad hwn hefyd yn dangos sut y gall siarad Cymraeg roi hwb i gyflogadwyedd."**

## Cysylltiad â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru â Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu – sy'n helpu pobl ifanc i weld gwerth y Gymraeg yn y farchnad lafur.
- Cymru Fwy Cyfartal – sy'n galluogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir.
- Cymru Lewyrchus – sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc a fydd yn eu helpu i gynllunio eu gyrfaoedd yn y dyfodol.
- Cymru Gydnerth – sy'n datblygu dilyniant cymdeithasol ac economaidd pobl ifanc drwy fwy o ymwybyddiaeth o'r farchnad lafur.
- Cymru Iachach – sy'n gwella lefelau hyder a chymhelliant pobl ifanc am eu dyfodol.

# Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant



**Rydym yn ymroddedig i annog diwylliant cefnogol a chynhwysol ac i sicrhau bod tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu gwreiddio ym mhob agwedd ar y busnes. Rydym yn hyrwyddo diwylliant sy'n mynd ati i werthfawrogi unigolion ac sy'n cydnabod bod pobl o bob cefndir a phrofiad yn ychwanegu gwerth at gymunedau Cymru. Trwy wreiddio egwyddorion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein harferion bob dydd, rydym yn sicrhau bod ein gweithredoedd yn meithrin ysbryd cynhwysiant.**

Rydym yn ymroddedig i wneud y canlynol:

- Annog diwylliant sy'n sicrhau bod tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u gwreiddio yn ein harferion bob dydd.
- Darparu amgylchedd lle mae ein cwsmeriaid a'n gweithlu'n cael eu cynnwys ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, beth bynnag fo'u hamgylchiadau unigol, eu hanghenion a'u profiadau personol.
- Sicrhau bod y gwasanaethau a'r gyflogaeth yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u hamgylchiadau unigol, eu hanghenion a'u profiadau byw.
- Trin ein cwsmeriaid a'n gweithwyr fel unigolion, yn deg a gyda pharch, gan roi cyfle i bawb ffynnu a datblygu.
- Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'n staff allu darparu gwasanaeth teg, amrywiol a chynhwysol a hybu dealltwriaeth o degwch, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Gwrando ar adborth ynglŷn â thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant gan ein cwsmeriaid a'n staff a gweithredu arno.
- Dileu aflonyddu neu fwlio o unrhyw fath, gan greu amgylchedd lle na chaiff ymddygiad amharchus ei oddef.
- Adolygu arferion a pholisi tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn rheolaidd a chadw i fyny â datblygiadau ym maes tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gan weithio gyda phartneriaid allanol i'n helpu i wneud hyn.

- Mesur ein cynnydd, bod yn dryloyw am ein gwaith tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, a chyhoeddi dogfennau perthnasol.
- Rydym yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth teg i'n holl gwsmeriaid ac yn cydnabod y grwpiau â nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011.

## Adroddiad nodweddion gwarchodedig Cymru'n Gweithio.

Enghraifft o'r pwysigrwydd a roddwn ar ddarparu gwasanaethau teg, amrywiol a chynhwysol yw adroddiad nodweddion gwarchodedig Cymru'n Gweithio. Rydym yn casglu data nodweddion gwarchodedig dienw gan gwsmeriaid sy'n derbyn ein gwasanaeth ac yn defnyddio'r data hwn i wella gwasanaethau'n barhaus.

Cwblhawyd yr arolwg anorfodol hwn gan **1,976** o gwsmeriaid dros y flwyddyn, sef **6.6%** o gyfanswm y cwsmeriaid a gefnogwyd. Bydd y data hwn yn cael ei gymharu yn erbyn data meincnod cenedlaethol a, lle bo modd, yn erbyn y data o'n system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (ATLAS).

- Mae'r grŵp mwyaf o gwsmeriaid Cymru'n Gweithio yn yr ystod oedran 18-24. Mae grŵp targed ehangach y Warant i Bobl Ifanc (16-24) yn cynnwys **36%** o gwsmeriaid.
- Mae data'r arolwg dienw ac ATLAS yn dangos bod cyfran y cwsmeriaid rydym yn eu cefnogi sy'n datgan anabledd yn llawer is nag yn y boblogaeth gyffredinol. Gallai hyn fod oherwydd ymateb uwch "gwell gennyf beidio â dweud" na'r cyfartaledd yn ein data neu o bosibl oherwydd y bydd y data poblogaeth gyffredinol yn cynnwys cwsmeriaid nad ydynt yn gallu gweithio neu gael mynediad at hyfforddiant oherwydd eu hanabledd ac na fyddent felly'n debygol o gael mynediad at ein gwasanaethau.
- Mae Cymru'n Gweithio yn cefnogi mwy o gwsmeriaid sy'n nodi eu bod yn wyn nag unrhyw grŵp ethnig arall, sydd yn unol â phroffil ethnigrwydd Cymru. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn gweld ychydig yn llai o gwsmeriaid mewn grwpiau gwyn nag sydd yn nata'r boblogaeth ehangach.
- Mae cyfran y cwsmeriaid sy'n cael eu cefnogi o gefndiroedd Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig bron ddwywaith cymaint nag yn nata poblogaeth Cymru. Mae cynrychiolaeth gyffredinol grwpiau ethnig heb fod yn wyn ymhlith cwsmeriaid wedi cynyddu'n sylweddol ers yr adroddiad diwethaf, o **4.62%** ti **9.34%**.

- Mae Cymru'n Gweithio yn cefnogi nifer uwch o gwsmeriaid sy'n dweud bod eu rhywedd yn wahanol i'r hyn a neilltuwyd ar enedigaeth nag yn nata'r boblogaeth gyffredinol (1.83% o'i gymharu â 0.4%).
- Mae gan Cymru'n Gweithio gyfran uchel o gwsmeriaid sy'n sengl, sydd i'w ddisgwyl yn unol â phroffil oedran iau cwsmeriaid (61.46% o'i chymharu â 35.6%).
- Mae canran y cwsmeriaid sy'n dweud wrthym eu bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth yn llai nag 1%.
- Mae data ein harolwg yn awgrymu bod Cymru'n Gweithio'n cefnogi nifer uwch na'r cyfartaledd o gwsmeriaid sy'n nodi "dim crefydd na chred". Dyma'r grŵp mwyaf hefyd (56.83%).
- Nid yw canran y cwsmeriaid benywaidd i wrywaidd yn cynrychioli'r boblogaeth oedran gweithio ehangach. Dim ond 40.54% o gwsmeriaid sy'n fenywod o gymharu â 50.79% o'r boblogaeth. Mewn cyferbyniad, mae 58.14% o'n cwsmeriaid yn nodi bod ganddynt hunaniaeth wrywaidd, o gymharu â 49.21% o'r boblogaeth. Mae data Cymru ond yn nodi rhyw fel gwryw neu fenyw (gan nodi hunaniaeth rhywedd mewn cwestiwn ar wahân), ond mae'r arolwg hefyd yn cynnig opsiwn i gwsmeriaid nodi eu rhyw fel "Arall", ac mae 0.66% o'n cwsmeriaid wedi gwneud hynny. Dim ond canran fechan o 0.6% y mae'n well ganddynt beidio â dweud.
- Mae'r data'n dangos cyfran is o gwsmeriaid heterorywiol/syth na'r boblogaeth ehangach (85% o gymharu ag 89.75%). Mae canran y cwsmeriaid sy'n dweud bod eu cyfeiriadedd rhywiol yn hoyw neu'n lesbiaidd yn debyg iawn i'r boblogaeth ehangach (1.9% o gymharu ag 1.88%), ond mae nifer y cwsmeriaid deurywiol yn sylweddol uwch na data'r boblogaeth, sef 4.37% o gymharu ag 1.63%. Mae cyfran y cwsmeriaid a ymatebodd gydag "arall" hefyd yn uwch, sef 2% o gymharu â 0.35%. Mae'r ymatebion "gwell gennyf beidio â dweud" / dim ymatebion yn debyg ar draws y ddwy set ddata (tua 6%).

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn y maes hwn ar gael drwy ein – **Adroddiad ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**.